CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 6 MEHEFIN 2017

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
E R Hughes, B Owen, W L Davies, W R Owen, W T Owen, A Hopcyn, E Lovgreen, S Sage, M Sarnacki, K Jones, C Larson, R Thomas, C Williams, K Richards

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng J W Parry , Cyng G Thomas

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Cydymdeimlwyd a teuluoedd Irfon Williams, Eric Gray Thomas a Meical Roberts (Delwedd) ynghyd a teuluoedd trychineb Manceinion a Llundain a teuluoedd lleol eraill – safodd pawb am funud er cof

Noson Y Maer
Bore Coffi Ymgyrch y Galon
Croesawu criw o Morbinio ir Castell
Noson gwobrywo dartiau
Ras am Fywyd

Wnaeth y Maer llongyfarch Cyng W T Owen am ei ethol yn Is Gadeirydd Ymddiriedolaeth Yr Harbwr

3. **Datgan Buddiant Personol**

I C Thomas – ceisiadau cynllunio rhif 4 a 6

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 2 Mai 2017
ii. Cyfarfod Blynyddol 18 Mai 2017

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir ar ôl ychwanegu enw cyng W L Davies yn bresennol (13 o blaid , 2 ymatal)
ii. Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)

6. Ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

Penderfynwyd

Hawl i Weithredu : Nos. 1 - 3

1. C17/0330/14/LL **Cytuno**
Adeiladu 4 tŷ ynghyd a chreu mynedfa i'r gefnffordd

Cyn safle/Former site Marine Hotel, North Road Caernarfon

****

2. C17/0398/14/LL **Cytuno**
Dymchwel y lolfa bresennol a chodi estyniad deulawr ar dalcen y ty

19 Maes Meddyg Caernarfon

****

3. C17/0401/14/LL **Cytuno**
Estyniad deulawr yn y cefn

34 Marcus Street, Caernarfon

****

4. C17/0436/134/LL **Cytuno**
Estyniad sengl ochr ynghyd a gosod ffenestri Dormer yn y blaen a'r cefn

43 Llys Gwyn, Caernarfon

5. C17/0449/14/LL **Cytuno**
Estyniad deulawr ar ochr y ty/

1 Maes Meddyg, Caernarfon

****

6. C17/0456/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd ystorfa yn dy annedd/

37 Y Maes, Caernarfon

****

7. C17/0478/14/HY **Cytuno**
Codi un arwydd ffasgia wedi'i
Oleu'n fewnol

75 Point 3, 17 Y Maes, Caernarfon

****

8. C17/0485/14/LL **Cytuno**
Ail leoli peiriant tynnu arian/

Santander, 1-3 Bridge Street, Caernarfon

****

9. C17/0486/14/HY **Cytuno**
Arwydd ffasgia wedi ei oleu ynghyd a gosod
sgrin deledu ar gyfer dibenion hysbysu tu cefn
i'r ffenestr blaen

Santander, 1-3 Bridge Street, Caernarfon

****

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn au talu (unfrydol)

8.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

i)Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau, is - bwyllgorau

ii) Adolygu cylch gorwyl pwyllgorau

iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol

iv) Enwebiadau cyrff allanol

v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd

vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol + cod ymddygiad

vii) Mabwysiadu rhestr asedau

viii)Adolygu aelodaeth Cyngor/neu weithwyr o gyrff arall

ix) Adolygu trefniadau cwynion

x) Adolygu polisïau – amgaeedig yn eich amlenni

Penderfynwyd

i) Gan nad oes unrhyw dirprwyaeth ar hyn o bryd derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

ii) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

iii) Gweler atodiad yn cefn y cofnodion (unfrydol)

iv) Gweler atodiad yn cefn y cofnodion (unfrydol)

v) Penodi pwyllgor cynllunio iw dreialu am 6 mis gyda hawliau i weithredu ar bob cais cynllunio . Aelodau sydd ddim ar y pwyllgor i roi sylwadau ar unrhyw gais i gynrychiolydd eu ward (unfrydol)

vi) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

vii) Derbyn a diolch i'r cyn Faer a'r clerc am eu gwaith (unfrydol)

viii) Y tri corff eisoes wedi talu am eleni sef Unllais, SLCC a Trefi Caerog felly derbyn er gwybodaeth(14 o blaid, 1 ymatal)

ix) Derbyn y polisi (unfrydol)

x) Derbyn y polisïau (unfrydol)

(Gadawodd Cyng C Williams am 7.00)

10. Cyngor Gwynedd

Parthed Ffiniau newydd

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys yr argymhellion (unfrydol)

11.Unllais Cymru – Pwyllgor Ardal 14 Mehefin 2017

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a'r cynrychiolwyr newydd i fynychu (unfrydol)

(Cyng B Owen wedi gadael am 7.13)

12.Rhybudd o Gynnig Cyng. Eleri Lovgreen

Pâr: cafnau blodau ar y Maes
Eglurodd y cefndir bod cydweithrediad hanesyddol rhwng Cyngor Gwynedd a Siambr Fasnach yn wreiddiol . Ond bod y sefyllfa o geisio cael arian trwy Siambr Fasnach yn anodd iawn yn ddiweddar ac er bod y clerc yn trio ers mis Chwefror dim byd hyd yma am eleni.

Awgrymwyd o fewn y rhybudd inni fynd ati ein hunain eleni a gwario £1000 i rhoi lliw ar frys yn y cafnau, gan rhoi hawl i weithredu i'r clerc gael prisiau gan Antur Waunfawr, Fron Goch a Menter Fachwen ac yna hawl i weithredu ir clerc i symud ymlaen ar dewis gorau gan brysuro i geisio cyflawnni hyn o fewn y pythefnos nesaf . Gan ddal i geisio cael cyfraniad gan y Siambr Fasnach sydd fel arfer oddeutu £600. Nododd Cyng K Richards bod stondinwyr y farchnad yn fodlon cyfrannu at un or cafnau

Penderfynwyd

Symud ymlaen a gweithredu ar cynnwys ar frys (unfrydol)

13.Unllais Cymru

Cynhadledd Cynghorau Lleol Mwy a Gwobrau Arfer Blaengar Unllais Cymru - Maes Sioe Frenhinol Cymru 5 Gorffennaf 2017

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ar cynrychiolydd fynychu (unfrydol)

14.Gorchymyn Cyngor Gwynedd

Gwaharddiad a Chyfyngu Aros a Gwahardd a Chyfyngu Llwytho a Dadlwytho Nwyddau – Y Maes

Penderfynwyd

Gofyn os oes arwyddion gwell am gael eu gosod bellach yn nodi DIM PARCIO
Gofyn am marciau clir ir taxi rank ac eglurhad pam bod nhw yn symud draw (unfrydol)

15. Cyngor Gwynedd

Rhybudd Digwyddiad Arbennig ar Y Maes 'Etape Eryri'
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

16.Unllais Cymru

Manylion Hyfforddiant Gynefino i Gynghorwyr Newydd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a chwilio am gwrs hyfforddiant i aelodau pwyllgor cynllunio newydd (unfrydol)

17.Cyngor Gwynedd

Gwahoddiad Codi'r Faner ar Bencadlys Cyngor Gwynedd 12 Mehefin
Penderfynwyd
Enwau i'r clerc (unfrydol)

18.**Llythyrau Diolch**

i) Clwb Rygbi Caernarfon
ii) Seindorf Arian Llanrug
iii) CAB
iv) Shelter Cymru

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

19.**Cyfarfod ar y cyd SLCC/Unllais Cymru 12 Gorffennaf 2017 Ewloe**
Penderfynwyd
Enwau i'r clerc (unfrydol)

20.Cwestiynau
Oes posib gael battery newydd i'r cloc ? oes

Gorffenodd y cyfarfod am 7.40

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....